Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen-y-bryn
# Bethesda
# Gwynedd
# LL57 3BE

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pen-y-bryn

Lleolir Ysgol Pen-y-bryn yn nhref Bethesda yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ond addysgir y Saesneg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu yn achlysurol. Mae 125 disgybl rhwng 7 ac 11 oed ar y gofrestr. Er mis Ionawr 2017, mae'r ysgol wedi ffedereiddio ag Ysgol Abercaseg sydd o fewn yr un dref.

Dros dreigl tair blynedd, mae ychydig dros 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae 72% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig dros 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o dan ofal yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth yn barhaol i'w swydd ym mis Ebrill 2004 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr yr ysgol lwyddiannus hon weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o safon uchel i'w disgyblion. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn darparu profiadau dysgu diddorol iddynt sy'n galluogi bron pob un i wneud cynnydd sydd o leiaf yn dda, yn arbennig yn eu medrau llafar Cymraeg. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd eang i ddisgyblion gymryd rolau arwain yn llwyddiannus, sy'n eu paratoi'n dda i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd penodol i ddisgyblion gymhwyso’u medrau ysgrifennu, rhifedd a thechnolegol yn annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau

A2 Rhannu mwy o arferion da ar draws y ddwy ysgol yn y ffederasiwn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae disgyblion yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiad strategol yr ysgol gyda’u cyfoedion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau mathemategol yn uwch na'r hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu cyfnod yno, mae bron pob un, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yr ychydig iawn sydd dan ofal yr awdurdod lleol, a'r rhai mwy abl, yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae bron pob un disgybl yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau athrawon ac ar safbwyntiau ei gilydd. Maent yn siarad yn gywir yn y Gymraeg a Saesneg, gan fynegi barn am eu gwaith mewn modd hynod aeddfed. Maent yn cynnwys idiomau ac ymadroddion priodol yn gelfydd yn eu sgyrsiau, yn arbennig yn y Gymraeg. Mae bron pob un sydd wedi ymuno â'r ysgol yn hwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llafar Cymraeg. Mae medrau trawsieithu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gynyddol lwyddiannus, ac yn rhan greiddiol o'u gwaith mewn amrywiol bynciau.

Mae medrau darllen bron pob un disgybl yn datblygu'n gadarn. Mae bron pob un o ddisgyblion iau'r cyfnod allweddol yn defnyddio amrywiol strategaethau yn llwyddiannus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un yn amrywio goslef y llais yn briodol wrth ddarllen ar goedd ac yn deall yn iawn yr hyn y maen nhw'n ei ddarllen. Maent yn siarad yn aeddfed am gynnwys eu llyfrau darllen ac yn disgrifio'r cymeriadau a'r plot yn gywrain.

Mae medrau ysgrifennu bron pob un yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu i bwrpas mewn amrywiaeth o arddulliau, gan gynnwys idiomau a dywediadau eraill yn y testun, lle'n briodol. Fodd bynnag, maent yn rhy gaeth i ganllawiau manwl a ddarperir gan yr athrawon i'w galluogi i feithrin hyder wrth ysgrifennu'n annibynnol. Gydag arweiniad parhaus, maent yn ysgrifennu darnau estynedig mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu llythyr o safbwynt faciwî at ei mam yn y ddwy iaith wrth astudio'r Ail Ryfel Byd mewn hanes. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu dadl ar themâu cyfredol fel 'Dylid dileu ysmygu yn llwyr' fel rhan o'u gwaith ar fyw yn iach, a phortreadau o gymeriadau Chwarel y Penrhyn fel rhan o'u hastudiaeth hanesyddol.

Mae medrau mathemategol bron pob un disgybl yn datblygu'n dda iawn. Maent yn meddu ar y gallu i gyfrifo a datrys problemau rhif yn aeddfed yn eu pen mewn amrywiol gyd-destunau mathemategol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau mathemategol yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau, fel dadansoddi data a'i gyflwyno ar ffurf graff i gofnodi eu hastudiaeth o ynysyddion thermol mewn gwyddoniaeth. Er hyn, nid yw llawer bob amser yn gwneud hynny ar yr un lefel uchel mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar y we, gan greu posteri a llythyron i atgyfnerthu eu gwybodaeth am hynny. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn effeithiol i gyflwyno'u gwaith, gan ei olygu lle'n briodol. Maent yn creu cyflwyniadau electronig yn lled hyderus i gyfleu gwybodaeth am themâu fel chwaraeon poblogaidd neu organau'r corff. Maent yn defnyddio codau 'QR' yn

hyderus i ychwanegu gwybodaeth i ddarllenwyr eraill am themâu amrywiol. Maent yn dadansoddi data ac yn defnyddio taenlenni yn gynyddol hyderus mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Yn achlysurol, mae disgyblion yn dewis thema o fewn ystod gyfyng i ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i greu cyflwyniadau electronig i gyfleu egwyddorion masnach deg.

Mae bron pob un yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn prosiectau mentergarwch fel coginio danteithion ar gyfer y Ffair Nadolig, ynghyd â chynllunio pecynnau i'w lapio. Mae'r prosiectau trawsgwricwlaidd hyn yn rhoi cyfle defnyddiol i ddisgyblion gyfuno nifer o fedrau allweddol a'u cymhwyso'n llwyddiannus. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau lle mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio'r prosiectau hyn a'u gweithredu'n gwbl annibynnol, heb fewnbwn sylweddol athrawon.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un disgybl yn siarad yn hyderus a chyda balchder am eu hysgol. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno. Maent yn hapus i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt gydag aelodau staff, gan ymddiried y byddant yn darparu cefnogaeth iddynt os bydd angen. Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn hynod gwrtais mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac yn dangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Un o nodweddion mwyaf cadarnhaol yr ysgol yw'r ffordd aeddfed y mae disgyblion mwy abl yn ymdrin â'r blaenoriaethau strategol. Mewn ymgynghoriad â'r athrawon, mae aelodau 'Grŵp Pesda', sy'n grŵp o ddisgyblion mwy abl, yn trafod blaenoriaethau gwella'r ysgol yn hyderus, yn eu haralleirio fel eu bod yn ddealladwy i'r disgyblion eraill, ac yn eu cyflwyno i'w cyfoedion. Maent hefyd yn gwneud cyflwyniadau ar hyn i rieni. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno strategaethau mathemateg pen i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob un yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r medrau hyn yn barhaus. Enghraifft dda arall yw'r ffordd aeddfed mae'r disgyblion hyn yn trafod pwysigrwydd dilyniant a pharhad yn y modd y mae'r ysgol yn datblygu medrau TGCh wrth bontio rhwng y cyfnod sylfaen yn Ysgol Abercaseg a chyfnod allweddol 2 yn yr ysgol hon.

Yn yr un modd, mae aelodau'r cyngor ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus iawn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol fel rhan o waith y Siarter Iaith. Mae aelodau'r cyngor yn annog eu cyfoedion i ddefnyddio'r iaith yn gyson, i wylio rhaglenni teledu Cymraeg ac i wrando ar gerddoriaeth boblogaidd yn yr iaith. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ystyried gweithgareddau yn y Gymraeg yn rhywbeth 'cŵl' ac yn cael effaith hynod gadarn ar eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod yr iaith.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae bron pob un yn meddu ar ddealltwriaeth effeithiol iawn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymroi'n syth i'w gwaith ac yn barod ar gyfer dysgu. Maent yn hynod frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd ar y tasgau a osodwyd iddynt. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith gan ddangos balchder a deallusrwydd aeddfed am y cynnwys. Mae bron pob un disgybl yn cydweithio'n dda

â'u cyfoedion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd. Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill ac yn disgwyl eu tro yn amyneddgar, er enghraifft wrth drafod a didoli gwrthrychau hanesyddol. Mae bron pob un disgybl yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Maent yn deall y cod cywiro yn dda ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i wella eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Defnyddiant yr ystod eang o gymorth gweledol o fewn eu dosbarthiadau yn gwbl naturiol i'w galluogi i wella'u gwaith.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda yn eu gwaith. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac maent yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys rhaglenni astudio'r pynciau craidd yn llwyddiannus, mewn cyd-destunau diddorol. Maent yn strwythuro tasgau yn hynod fanwl i sicrhau bod pob disgybl yn llwyddo ym mhob cam cyn symud ymlaen i'r un nesaf. Er enghraifft, maent yn rhoi adborth manwl iddynt ar eu hymdrech i ysgrifennu un paragraff mewn stori cyn symud ymlaen i ysgrifennu'r un nesaf. O ganlyniad, gyda chymorth, mae bron pob un disgybl yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig o safon uchel dros gyfnod.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiol dechnegau holi yn gelfydd i ddatblygu ymhellach ymatebion disgyblion, ac i gywiro ac ymestyn eu hiaith. Maent yn fodelau rôl ieithyddol da. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu yn glir gyda'r disgyblion ac yn paratoi canllawiau strwythuredig i'w harwain drwy bob cam o dasg. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau i herio pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol a'r mwyaf abl, i gyflawni hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg, Saesneg, mathemategol, gwyddonol a thechnolegol yn effeithiol o fewn strwythur penodol sy'n seiliedig ar y rhaglenni astudio. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn gwbl annibynnol a naturiol ar draws y cwricwlwm ac mewn prosiectau o'u dewis nhw eu hunain.

Mae'r athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol ac yn trin pob un yn gyfartal gan ddangos parch priodol atynt. Maent yn cydweithio â'r staff cynorthwyol yn effeithlon i gefnogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, yn eu tro, yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i lwyddo yn eu tasgau.

Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn effeithiol ac yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maen nhw yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae gan yr ysgol god cywiro cytûn, sy'n hysbys i'r staff a'r disgyblion ac sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ganddynt. Mae'n galluogi disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill yn fedrus, lle y bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae gan yr athrawon dueddiad i or-arwain y disgyblion, sy'n llesteirio'u gallu i gofnodi eu gwaith yn gwbl annibynnol.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu eang i ddisgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb yn dda, ac yn eu hysgogi i ddysgu. Trwy gynllunio manwl, mae'r athrawon yn sicrhau bod tasgau yn addas ar gyfer yr ystod gallu a bod cyfleoedd da i ddisgyblion adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio gweithgareddau gan ystyried gofynion y Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth bod disgyblion yn arwain eu

dysgu eu hunain gan ddefnyddio'u medrau ieithyddol, mathemategol a thechnolegol i ymgymryd â thasgau real yn gwbl annibynnol.

Cyfoethogir y profiadau dysgu ymhellach drwy wahodd ymwelwyr i rannu profiadau â'r disgyblion a thrwy drefnu ymweliadau â'r ardal leol a thu hwnt. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â Chaerdydd wrth astudio hanes a diwylliant Cymru a'r Amgueddfa Lechi lleol wrth ddarllen nofel yn seiliedig ar Chwarel y Penrhyn.

Mae meithrin balchder y disgyblion yn eu Cymreictod, diwylliant Cymru ar manteision bod yn ddwyieithog, yn greiddiol i holl waith a bywyd yr ysgol. Drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau'r Siarter Iaith, mae medrau llythrennedd disgyblion a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a'u hardal leol yn datblygu'n llwyddiannus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad disgyblion yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd ac ymwelwyr, ac yn ddysgwyr cydwybodol.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol â nhw. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r rhieni yn rheolaidd trwy gylchlythyron a nosweithiau cwricwlaidd. Mae hyn yn galluogi rhieni i gefnogi gwaith eu plant yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn dda iawn. Mae rhaglenni ymyrraeth pwrpasol yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i gefnogi'r disgyblion hyn a gwella'u hymddygiad, lle'n briodol.

Mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion leisio'u barn ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Er enghraifft, mae bod yn aelod o'r grŵp 'Plant Pesda', y cyngor ysgol, eco bwyllgor, 'bydis buarth' a'r 'dreigiau doeth' yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblon gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif a dylanwadu ar waith yr ysgol yn effeithiol. Cânt gyfle i ymdrin ag elfennau sy'n ymwneud â bywyd pob dydd yr ysgol yn ogystal ag elfennau addysgol a rheolaethol. Mae hyn yn ychwanegu at eu hymdeimlad o berchnogaeth dros yr ysgol a datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cynllun addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr i ddisgyblion, sy'n meithrin agweddau fel parch, goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol. Yn ogystal, mae croesawu amrywiol ymwelwyr i'r ysgol i drafod materion fel masnach deg yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn llawer o wybodaeth ddefnyddiol am faterion pwysig. Mae'r swyddog heddlu yn ymwelydd rheolaidd ac yn addysgu'r disgyblion am sut i gadw'n ddiogel yn y gymuned, ar y we ac am beryglon camddefnyddio sylweddau.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r athrawon i gaffael gwybodaeth gyfredol am gynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion er mwyn gallu targedu cymorth i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn gyflym. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gan bob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

gynllun datblygu unigol pwrpasol ynghyd â thargedau clir a phendant. Defnyddir y rhain yn effeithiol gan staff wrth iddynt gynllunio ymyraethau priodol ar eu cyfer. Mae'r staff ategol yn ymwybodol o dargedau gwella disgyblion penodol ac maent yn eu cefnogi'n gydwybodol i'w cyrraedd. Mae hyn yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau amrywiol, fel y seicolegydd addysg a'r gwasanaeth iechyd, i ddarparu cefnogaeth arbenigol a phwrpasol i'r disgyblion sydd ei hangen.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach sy'n annog bron pob un o'r disgyblion i wneud dewisiadau doeth.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau llwyddiannus i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes ac etifeddiaeth Cymru. Er enghraifft, maent yn astudo streic Chwarel y Penrhyn, trychineb Aberfan a hanes yr iaith Gymraeg dros y canrifoedd hyd heddiw. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o hanes eu cymuned a diwylliant Cymru. Trwy gymryd rhan mewn eisteddfodau, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â'r celfyddydau creadigol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae staff yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio mewn gwasanaethau ac yn ystod amser cylch. Er enghraifft, bu'r ysgol gyfan yn myfyrio ar degwch hiliol yn dilyn cyflwyniad ar hanes Martin Luther King gan ddisgyblion Blwyddyn 6.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o safon uchel i'r disgyblion, sy'n eu hannog i feithrin y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned. Er dros flwyddyn bellach, mae'r pennaeth wedi datblygu ei rôl fel arweinydd y ffederasiwn yn gadarn. Mae'r weledigaeth gytûn ar gyfer y ffederasiwn yn cael ei rhannu'n briodol gyda'r disgyblion, y staff ac aelodau'r corff llywodraethol. Mae'r dirprwy bennaeth ynghyd â'r athrawon yn ei chefnogi'n fedrus trwy gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol, fel llythrennedd a rhifedd, yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig eu medrau rhifedd a llafar. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn dechrau rhannu arfer dda a welir yn y ddwy ysgol ar draws ei gilydd, i ddatblygu cysondeb yn y ddarpariaeth. Mae enghraifft nodedig yn cynnwys rhannu dulliau dysgu darllen gan gynnwys darparu cyngor ar ffurf fideo i rieni gefnogi eu plant adref. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â datblygu medrau arweinyddiaeth yr athrawon yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar i'r ffederasiwn ac nid yw'r arferion hyn wedi eu datblygu'n llawn ar draws y ddwy ysgol.

Mae gan bob aelod staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y ddarpariaeth, deilliannau a lles disgyblion. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau pellach trwy weithredu nifer o

strategaethau pwrpasol, fel gwella medrau llafar a TGCh disgyblion.  Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn sicrhau bod pawb yn cydweithio'n effeithiol i ddiwallu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus.

Ers iddynt sefydlu fel corff, mae'r llywodraethwyr wedi cydweithio'n effeithiol â'r pennaeth i ddatblygu gweithdrefnau pwrpasol i'w cynorthwyo i gael trosolwg clir o fywyd gwaith y ddwy ysgol fel ei gilydd.  Mae cyfarfodydd rheolaidd a gwybodaeth gyson ar ffurf adroddiadau gan y pennaeth ac arweinwyr eraill, yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol sy'n eu galluogi i'w chefnogi ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.  Er mwyn cyfoethogi hyn ymhellach, mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgolion yn eu tro er mwyn cydweithio ag arweinwyr a'r staff i graffu ar lyfrau, trafod gyda staff a disgyblion ac ymgymryd â theithiau dysgu buddiol.  Enghraifft dda o hyn yw'r daith ddysgu ar draws y ddwy ysgol i ddysgu mwy am ddatblygiad ysgrifennu disgyblion o'r meithrin i Flwyddyn 6. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt drosolwg clir o waith y ddwy ysgol fel ei gilydd.

Mae gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu elfennau creiddiol o fywyd a gwaith yr ysgol.  Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddiad data perfformiad, canfyddiadau craffu ar lyfrau yn ogystal â chywain barn rhieni a disgyblion.  Maent yn gwneud defnydd da o farn partneriaid strategol eraill sy'n ymweld â'r ysgol, gan gynnwys yr awdurdod lleol a phenaethiaid o ysgolion lleol.  Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn bwrpasol ac yn cynnig darlun clir o fywyd a gwaith yr ysgol.  Mae cyswllt cryf rhwng deilliannau'r adroddiad hwnnw a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.  Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n gadarn ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir.  Mae'r staff cyfan yn rhan o arfarnu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ac maent yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau i wireddu'r targedau.

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig i ddiwallu'r cwricwlwm.  Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn manteisio ar arbenigeddau staff yn briodol, er enghraifft wrth i'r athrawon gyfnewid dosbrthiadau i addysgu celf a cherddoriaeth. Mae'r trefniadau i reoli perfformiad staff yn effeithiol ac yn gosod amcanion buddiol i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth ar faterion sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol.  O ganlyniad, mae'r holl staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â'u hanghenion personol ac anghenion yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn effeithiol.  Gwneir defnydd effeithlon o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi disgyblion penodol mewn meysydd fel llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chynnig gwersi offerynnol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2018